

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg 25 Mehefin 2025 Ystafell Fwrdd Llais, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays / Microsoft Teams

Aelodau

Karen Lewis	Cadeirydd y Pwyllgor
Jason Smith	Aelod Anweithredol
John Baker	Aelod annibynnol
Anthony Pritchard	Aelod annibynnol

Mynychwyr

Alyson Thomas	Prif Weithredwr
Joanne Bolton	Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol
Richard Bevan	Ysgrifennydd y Bwrdd
Katie Holliday	Cyfarwyddwr Cyllid
Paul Dalton	Pennaeth Archwilio Mewnol
David Williams	Archwilio Cymru
Andrea Calise	Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, NWSSP
Ben Eaton	Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu (cyfarfod rhannol)
Lucy Kirkman - Kovacs	Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth a GDPR (cymryd cofnodion)

Ymddiheuriadau

Jack Evershed	Aelod Anweithredol
---------------	--------------------

Croeso a chyflwyniadau, datganiadau o fuddiant, ymddiheuriadau

- 1.1 Dechreuodd y Cadeirydd y cyfarfod trwy estyn croeso ffurfiol i'r holl aelodau a mynychwyr.
- 1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Evershed.
- 1.3 Atgoffwyd yr aelodau o'u rhwymedigaeth i ddatgan unrhyw fuddiannau newydd a allai fod wedi codi ers y cyfarfod blaenorol.

Cofnodion a chamau gweithredu a phenderfyniadau'r cyfarfod diwethaf

- 2.1 Adolygodd y pwyllgor gofnodion cyfarfod PASR, a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025. Nodwyd nad oedd cofnodion ffurfiol ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2025 gan fod hon yn sesiwn anffurfiol.
- 2.2 Gofynnodd aelodau'r pwyllgor am eglurhad ynghylch y cyfeiriad at yr achrediad Cyber Essentials a grybwyllwyd yng nghofnodion y cyfarfod ar 5 Mawrth 2025. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd fod y geiriad wedi'i adolygu a'i ddiwygio i adlewyrchu gofynion adborth a sicrwydd blaenorol y Pwyllgor.
- 2.3 Gan adlewyrchu'r eglurhad uchod, cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod fel cofnodion cywir o'r achos.

Camau gweithredu a phenderfyniadau'r cyfarfod diwethaf

- 3.1 Rhoddodd Ysgrifennydd y Bwrdd ddiweddariad ar statws camau gweithredu agored a phenderfyniadau a gofnodwyd yng nghofnod gweithredu'r Pwyllgor. Adroddwyd bod 10 gweithred wedi'u cofrestru, ac roedd 8 ohonynt wedi'u cwblhau. Cymeradwyodd y pwyllgor gau'r 8 camau gweithredu a gwblhawyd. Roedd 2 gam gweithredu yn parhau i fod heb eu cwblhau:
 - Roedd sesiwn sicrwydd ychwanegol ar TG a Seiberddiogelwch a ohiriwyd oherwydd sesiwn Graffu Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd yn cael ei hamserlennu i 1 Awst 2025.
 - Camau gweithredu o fis Rhagfyr 2024 ynglŷn ag adrodd eiriolaeth cwynion, sydd bellach yn cael ei ystyried wedi'i ddisodli gan ddatblygiadau dan arweiniad yr arweinydd eiriolaeth a newidiadau i systemau cwynion y GIG. Cytunodd y pwyllgor fod y weithred wedi'i disodli ac y gellid ei dynnu oddi ar y log. Cytunodd y pwyllgor i gau'r ail eitem hon a chynnwys blaennodyn i ddychwelyd at y pwnc ar y pwynt priodol yn 2025/2026.

- 3.2 Codwyd cwestiwn ychwanegol ynglŷn â Gweithred 11: ceisio cliriad i unigolion gael eu henwi mewn cofnodion. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i ddilyn i fynnu'r cam hyn i sicrhau ei fod wedi'i gwblhau'n llawn ac y byddai'n aros ar y log yn y cyfamser.
- 3.3 Diolchodd y Cadeirydd i Ysgrifennydd y Bwrdd am y diweddariad manwl a chydabu'r ymdrech gydgyssylltiedig a wnaed gan y tîm gweithredol ac aelodau'r Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r eitemau sy'n weddill.

A25-06-01 - Cofnod gweithredu eitem 11 - Gwaith dilynol yn egluro'r camau a gymerwyd a sicrhau ei fod wedi'i gwblhau yn ôl y cynllun. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Eitemau i'w trafod, sicrwydd a gwybodaeth
Derbyn adroddiad diweddaru'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol,
gan gynnwys archwiliadau wedi'u cwblhau

- 4.1 Rhoddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol drosolwg o 3 adroddiad archwilio mewnol wedi'u cwblhau, a gwblhaodd y cynllun o archwiliadau arfaethedig ar gyfer archwilio mewnol 2024/2025.
- 4.2 **Archwiliad Llywodraethu Gwybodaeth:** Darperir sicrwydd rhesymol. Roedd y canfyddiadau allweddol yn cynnwys yr angen am bolisi ceisiadau am wybodaeth ffurfiol i adeiladu ar y cynllun canllawiau a chyhoeddi sydd eisoes ar waith, gwell hyfforddiant cydymffurfiaeth (wedi'i gyfyngu gan heriau) â'r system ESR, ac adrodd pellach i'r pwyllgor.
- 4.3 **Archwiliad cyllid:** Darperir sicrwydd sylweddol. Roedd yr archwiliad yn cwmpasu rheolaethau cyllidebol a chyfrifon taladwy. Ni nodwyd unrhyw argymhellion. Croesawodd y pwyllgor y canlyniad cryf hwn a chanmolodd y tîm cyllid.
- 4.4 **Archwiliad Rheoli Perfformiad:** Rhoddwyd sicrwydd rhesymol ar gyfer yr archwiliad hwn. 2 argymhelliad blaenoriaeth ganolig:
- Angen fframwaith rheoli perfformiad wedi'i ddogfennu.

- Hyfforddiant ffurfiol ar gyfer defnyddio'r system Amcanion a Chanlyniadau Allweddol (OKR).
- 4.5 Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu fod y canfyddiadau ar yr adroddiad perfformiad yn deg ac y byddai'r Pennaeth Mewnwelediadau ac Ymgysylltu newydd yn mynd i'r afael ag ef a'u cefnogi.
- 4.6 Gofynnodd Aelod o'r Pwyllgor a oedd y sgôr sicrwydd 'rhesymol' a neilltuwyd i Lywodraethu Gwybodaeth yn dangos unrhyw risgiau uniongyrchol sylweddol i gydymffurfiaeth sefydliadol.
- 4.7 Eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol, er nad oedd y sgôr yn awgrymu risg uchel, ei fod yn nodi cyfleoedd ar gyfer cryfhau protocolau rheoli data a safonau dogfennaeth, yr oedd uwch reolwyr eisoes wedi ymrwymo i fynd i'r afael â nhw.
- 4.8 Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Archwilio Mewnol am eu cyflwyniad trylwyr a mynegodd foddhad y Pwyllgor bod yr holl archwiliadau arfaethedig wedi'u cwblhau yn unol â'r amserlen gymeradwy.
- 4.9 Cydnabuwyd bod gwaith archwilio mewnol yn bwysig iawn fel elfen allweddol o'r sylfaen ar gyfer trefniadau sicrwydd y sefydliad, adrodd y pwyllgor i'r Bwrdd ac adrodd cyhoeddus drwy'r Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

Barn Pennaeth Archwilio Mewnol

- 5.1 Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/2025 a hefyd y Cynllun Archwilio Mewnol arfaethedig 2025/2026.
- 5.2 Rhoddodd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol y sefydliad. Roedd yr adroddiad yn cydnabod perthnasoedd gwaith cadarnhaol ac yn cydnabod bod Llais yn sefydliad sy'n datblygu. Gofynnodd Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro am ddefnyddio'r testun y cytunwyd arno i'w gynnwys yn y Datganiad Llywodraethu Blyneddol.

- 5.3 Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y defnydd o destun y farn ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd y byddai'r farn yn cael ei ychwanegu at y ddogfen.

A25-06-02 - Cynnwys testun y cytunwyd arno o'r Farn Archwilio Blynyddol yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Cynllun Archwilio Mewnol 2025/2026

- 6.1 Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 hefyd, ac eglurwyd bod y cynllun wedi'i ddatblygu mewn cysylltiad â'r tîm gweithredol a bod ymgynghoriad â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.
- 6.2 Cynigiwyd 4 archwiliad, gan gynnwys archwiliad seiber. Cwestiynodd yr aelodau'r amseriad a'r cwmpas, o ystyried gwaith sicrwydd seiber allanol parhaus a'r risg seiber â sgôr coch. Cytunwyd bod amseru yn briodol o ystyried cynhwysedd a dilyniant gyda'r seiber sicrwydd allanol. Byddai'r sesiwn gydag ymgynghorwyr allanol yn llywio cwmpasu pellach o'r archwiliad mewnol.
- 6.3 Trafodwyd metrigau perfformiad ar gyfer archwilio mewnol hefyd. Cymeradwyodd y pwyllgor adolygu'r dyddiad cau cwblhau ymateb rheoli adroddiad archwilio mewnol o 5 i 10 diwrnod gwaith.
- 6.4 Gofynnodd aelod o'r pwyllgor am eglurhad ynghylch hyblygrwydd y cynllun i ddarparu ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg neu risgiau annisgwyl.
- 6.5 Cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod y cynllun yn cadw cynhwysedd wrth gefn a byddai'r tîm archwilio yn parhau i gysylltu â'r tîm gweithredol i addasu blaenoriaethau, yn ôl yr angen.
- 6.6 Trafododd y pwyllgor pa bwyllgor ddylai arwain craffu ar yr archwiliad 'Gwerthoedd, Diwylliant a Lles Staff' sydd ar ddod. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd y byddai hyn yn dod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Gweithlu, Tâl a Thelerau Gwasanaeth (PGTThG), gyda chroesgyfeiriad at y Pwyllgor Risg a Sicrwydd Archwilio, lle bo hynny'n briodol.

- 6.7 Cymeradwyodd y pwyllgor y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 yn ffurfiol a chroesawodd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol a nododd y byddai'n cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Llais drwy'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Diweddariad traciwr argymhellion archwilio

- 7.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd y traciwr argymhellion archwilio. Mae 30 o gamau gweithredu wedi'u cwblhau ac mae 8 ar ôl. Roedd y tîm gweithredol wedi gofyn i 3 cam gweithredu gael eu hystyried i'w disodli gan weithgarwch archwilio mwy diweddar (llywodraethu gwybodaeth a rheoli perfformiad). Cadarnhawyd gan archwilio mewnol y byddai hyn yn briodol.
- 7.2 Arhosodd 5 argymhelliad ar agor:
1. **Cofrestr Asedau Gwybodaeth** – wedi'i diweddarau yn dilyn gwaith arbenigwr Llywodraethu Gwybodaeth, i'w gymeradwyo gan weithredwyr ym mis Gorffennaf.
 2. **Polisi Diogelwch TG** - dolenni â sicrwydd asedau seiber a gwybodaeth.
 3. **Rheoli Cofnodion** - wedi'i gysylltu â chadw data a gwaith GDPR.
 4. **Strategaeth Ddigidol a Data** - drafft wedi'i gwblhau, o dan adolygiad mewnol.
 5. **Strategaeth Pobl** - angen ei ailddrafftio; nid yw'r drafft blaenorol bellach yn addas i'r diben oherwydd newid sefydliadol.
- 7.3 Cadarnhawyd bod adnoddau wedi'u hymrwymo i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Cododd y pwyllgor bryderon am gamau gweithredu hwyr hir sefydlog, a gofynnodd am ddyddiadau targed diwygiedig, realistig. Cytunwyd y byddai'r tîm gweithredol yn adolygu dyddiadau, a byddai'r Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd yn cefnogi templed diwygiedig i wella gwelededd ac eglurder adrodd ar gynnydd, lle bo hynny'n briodol.

- 7.4 Argymhellodd aelod anweithredol y dylid gwella'r papur eglurhaol cysylltiedig i ddarparu rhagor o fanylion ynghylch y rhesymeg dros unrhyw estyniadau gweithredu, cyd-destun cynnydd, ac effaith ar sicrwydd. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gwblhau ar gyfer yr adroddiad nesaf i'r pwyllgor, os oes angen.

A25-06-03 - Adolygu a diweddarau dyddiadau targed ar gyfer camau archwilio hwyr hirdymor a chwblhau'r camau gweithredu lle bo hynny'n bosibl. **Gweithredu:** Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.

A25-06-04 - Cefnogi templed diwygiedig ar gyfer adrodd cynnydd traciwr archwilio cliriach yn ôl yr angen. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd / Archwilio Mewnol.

A25-06-05 - Gwella papurau eglurhaol i ddarparu rhesymeg dros estyniadau gweithredu a chyd-destun. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Archwilio Cymru – Adroddiad diweddarau'r pwyllgor a'r cynllun archwilio ar gyfer 2025

- 8.1 Cyflwynodd y cynrychiolydd o Archwilio Cymru 2 bapur:

- Adroddiad diweddarau er gwybodaeth, a nodwyd gan y pwyllgor.
- Cynllun Archwilio Ariannol 2024/25 ar gyfer gwaith yr Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon: amlinellwyd lefelau perthnasedd a risgiau archwilio. Y prif risgiau sy'n gysylltiedig â gorbwyso rheolaeth posibl. Nodwyd 4 maes ffocws, gan gynnwys partïon cysylltiedig, asedau hawl i ddefnyddio, darpariaethau a datgeliadau taliadau.

- 8.2 Byddai'r gwaith archwilio yn dechrau yng nghanol mis Gorffennaf ac yn rhedeg trwy fis Awst, gyda chyfrifon drafft i'r pwyllgor ym mis Medi. Disgwyliwyd llofnodi ym mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd, yn amodol ar argaeledd y bwrdd. Roedd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cynnig dyddiad diwygiedig ar gyfer cyfarfod y bwrdd.

A25-06-06 - Cynnig dyddiad cyfarfod bwrdd diwygiedig ar gyfer

Tudalen | 7

llofnodi archwiliad ym mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd 2025. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Drafft

- 9.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft, gan adeiladu ar y sesiwn anffurfiol a gynhaliwyd ar 4 Mehefin 2025. Diolchodd i aelodau'r pwyllgor am eu hadborth a nododd fod newidiadau wedi'u hymgorffori.
- 9.2 Roedd yr adroddiad a'r datganiadau ariannol i'w cyflwyno i Archwilio Cymru ar 7 Gorffennaf 2025 a'r Adroddiad Blynyddol drafft ar 14 Gorffennaf 2025. Byddai'r elfennau terfynol, gan gynnwys rhagair gan Gadeirydd Llais a'r Prif Weithredwr, barn y Pennaeth Archwilio Mewnol, geirfa a mynegai, yn cael eu cwblhau cyn bo hir. Byddai'r Prif Weithredwr yn perfformio gwiriadau terfynol fel Swyddog Cyfrifyddu cyn ei gyflwyno. Byddai'r broses archwilio wedyn yn dechrau.
- 9.3 Byddai'r Pwyllgor yn ailymgynnull ddiwedd Medi 2025 i ystyried y fersiwn archwiliedig er mwyn ei argymhell i'r Bwrdd. Efallai y bydd cyfarfod cymeradwyo'r Bwrdd a drefnwyd i ddechrau ar gyfer 22 Hydref 2025 yn cael ei aildrefnu oherwydd cyfyngiadau argaeledd. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd dros dro y byddai dyddiad diwygiedig yn cael ei gynnig cyn bo hir.
- 9.4 Nid oedd gan y Pennaeth Cyllid unrhyw sylwadau ychwanegol ar y datganiad ariannol a'r cyfrifon.
- 9.5 Darllenwyd sylwadau ysgrifenedig aelod anweithredol i'r cofnod gan Ysgrifennydd y Bwrdd. Roedd y pwyntiau a godwyd yn cynnwys:
 - Eglurhad o'r adran dadansoddi perfformiad.
 - Cywiriadau i enghreifftiau ac esboniadau cynrychiolaeth Cwm Taf Morgannwg.
 - Awgrym i ychwanegu datganiad terfynol cadarnhaol i'r adran gwynion.

- Eglurhad ar enghreifftiau ymgynghori yn dilyn achos llys diweddar.
- 9.6 Roedd sylwadau a chwestiynau gan aelodau yn cynnwys y canlynol.
- 9.7 Holodd aelod annibynnol gywirdeb datganiad ar hanfodion seiber ar dudalen 54. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i'w aralleirio er eglurder.
- 9.8 Cododd aelod annibynnol bryderon fformatio mewn tablau ar dudalennau 50 - 60, yn benodol ynghylch budd-daliadau pensiwn a bandio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid fod y fformat yn cyd-fynd â'r canllawiau.
- 9.9 Cwestiynodd aelod annibynnol adrodd deul ar gostau staffio yn yr adroddiad tâl a'r datganiadau ariannol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Cyllid y bydd hyn yn cael ei gyflwyno yn y datganiadau ariannol yn unig.
- 9.10 Gofynnodd aelod annibynnol am gysoni rhwng rhwymedigaethau net a chyllideb i gynorthwyo darllenwyr lleyg. Cytunodd y Cyfarwyddwr Cyllid i archwilio nodyn esboniadol byr.
- 9.11 Nododd y Cadeirydd fod datganiadau effaith ar goll o'r adran gwynion ac argymhellodd ychwanegu canlyniadau cadarnhaol neu astudiaethau achos. Cytunodd y Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd Dros Dro'r Bwrdd.
- 9.12 Dywedodd y Cadeirydd y gellid gwneud diagram ar dudalen 7 ynglŷn â llinellau adrodd yn gliriach gyda saethau cyfeiriadol. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i edrych ar hyn a gwneud newidiadau, lle bo hynny'n bosibl.
- 9.13 Ar dudalen 11 - roedd cynnwys a theitlau anghyfartal. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn gwirio gyda'r Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu.
- 9.14 Ar dudalen 22 - nodwyd anghysondebau dadansoddiad rhanbarthol.

- 9.15 Ar dudalen 40 - holwyd pennawd 'Adroddiad y Cyfarwyddwyr' mewn perthynas â defnyddio'r term hwnnw; cadarnhawyd ei fod yn ofyniad safonol y canllawiau.
- 9.16 Cododd aelod anweithredol bod adran Gorllewin Cymru yn dod i mewn i farn genedlaethol heb bennawd newydd ar dudalen 13.
- 9.17 Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd Adroddiad Effaith ar wahân yn cael ei gynhyrchu ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.
- 9.18 Diolchodd y Cadeirydd i bawb a fu'n rhan o gynhyrchu'r ddogfennaeth.

A25-06-07 – Cysylltu â chydweithwyr i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r ddogfen ddrafft. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Canlyniad yr Adolygiad Barnwrol

- 10.1 Adroddodd y Prif Weithredwr ar adolygiad barnwrol diweddar ynghylch newid gwasanaeth y Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS). Profodd yr achos bod y Cydbwyllgor Comisiynu wedi rhoi sylw dyledus i sylwadau a wnaed o dan y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru). Daeth y barnwr i'r casgliad bod ystyriaeth briodol wedi'i roi, ac ni chafodd yr adolygiad barnwrol ei gadarnhau.
- 10.2 Cadarnhaodd y Prif Weithredwr nad oedd y sefydliad yn brif barti i'r adolygiad barnwrol, er ei fod wedi'i restru fel parti â diddordeb. Roedd y dyfarniad wedi gwasanaethu i ddilysu rôl y sefydliad wrth wneud sylwadau a dilyn i wneud yn siŵr eu bod yn cael eu hystyried yn iawn.

Adroddiad risg corfforaethol

- 11.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad risg diwygiedig, bellach gyda chynnwys naratif, fel y gofynnwyd. Adroddodd fod Rheolwr Llywodraethu a Risg newydd wedi'i phenodi, gan aros am wiriadau terfynol. Darparwyd diweddariadau ar alinio adrodd risg â'r fframwaith OKR ac integreiddio dangosfwrdd yn y dyfodol.

Tudalen | 10

Byddai dangosfyrddau risg yn cael eu defnyddio erbyn mis Awst, gan alluogi adrodd i'r Bwrdd ym mis Medi.

11.2 Nodwyd sylwadau ysgrifenedig yr aelod anweithredol absennol, gan dynnu sylw at well hygyrchedd y fformat naratif ac annog cynnwys ystyriaethau archwaeth risg. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cyfuno fformatau naratif a dangosfwrdd ac yn cynnwys archwaeth risg.

11.3 Roedd trafodaeth y pwyllgor yn cynnwys:

- Gofynnodd aelod anweithredol am lefelau staffio a chynhwysedd ymgysylltu rhanbarthol. Cadarnhawyd bod rolau Pennaeth Ymgysylltu ac Eiriolaeth ranbarthol newydd wedi'u cadarnhau ac yn cael eu cyflwyno.
- Awgrymodd aelod anweithredol olrhain cynnydd er mwyn sicrhau. Cytunodd Ysgrifennydd y Bwrdd i edrych ar hyn yn unol â'r Strategaeth Rheoli Risg a'r Fframwaith Sicrwydd Bwrdd.
- Croesawodd aelod annibynnol yr adroddiad risg gwell fel datblygiad cadarnhaol.

11.4 Nododd y Cadeirydd risgiau cyfryngau a disgwyliadau cyhoeddus a oedd angen monitro gwell. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai cyfathrebu rhagweithiol yn parhau, yn enwedig o ran straeon yn y cyfryngau sy'n ymwneud â Llais.

A25-06-08 – Datblygu'r gwelliannau i'r adroddiad fel yr awgrymwyd yn unol â datblygu'r dangosfwrdd. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

I dderbyn yr adroddiad diweddar cyllid hyd at ddiwedd mis Mai 2025

12.1 Crynhodd y Cyfarwyddwr Cyllid bwyntiau allweddol yr Adroddiad Cyllid. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol.

12.2 Aros am lythyr dyrannu cyllideb 2025/26 gan Lywodraeth Cymru.

- 12.3 Roedd timau bellach yn adeiladu cyllidebau yn seiliedig ar anghenion rhaglen waith i wella perchnogaeth a hyblygrwydd.
- 12.4 Mae prosesau monitro cyllideb fewnol wedi'u symleiddio.
- 12.5 Roedd dangosfyrddau yn cael eu datblygu. Fodd bynnag, parhaodd i fod problemau mynediad data Oracle oherwydd gwahanu system y GIG.
- 12.6 Roedd y cynllun ariannol tymor canolig yn cael ei ddatblygu, gan ystyried pwysau cost a senarios yn y dyfodol.
- 12.7 Roedd y balans wrth gefn wedi'i addasu o £276,000 i £46,000 yn dilyn adlinio cyllideb ddiweddar.
- 12.8 Cynlluniwyd adolygiad o lefelau wrth gefn derbyniol gyda'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol.
- 12.9 Nododd y pwyllgor yr adroddiad.

A25-06-09 - Adolygu a chytuno ar lefelau wrth gefn derbyniol gyda'r Cyfarwyddwr Strategol Gweithrediadau a Gwasanaethau Corfforaethol. **Gweithredu:** Y Cyfarwyddwr Cyllid.

Derbyn am sicrwydd; adborth, pryderon a chwynion, Diweddariad anrhegion a lletygarwch, Diweddariad Datganiadau Buddiannau

- 13.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd yr adroddiad diweddar rheolaidd. Nid oedd angen gweithredu ar unwaith ar unrhyw eitemau. Roedd prosesau Datganiadau Buddiant yn parhau i gael eu hymgorffori mewn pecynnau sefydlu.
- 13.2 Gofynnodd aelod anweithredol am eglurhad ynghylch pryd y dylid datgan derbyn gwasanaethau iechyd/gofal cymdeithasol. Ailadroddodd y Prif Weithredwr a'r Cadeirydd y dylid gwneud datganiadau os bydd gwrthdaro yn codi mewn perthynas â phenderfyniadau agenda, yn enwedig lle y gellid ystyried ymwneud personol â gwasanaeth fel gwrthdaro. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Bwrdd fod adolygiad ar y gweill gyda'r polisi a'r canllawiau a byddai'n gwirio a oedd angen unrhyw welliannau.

A25-06-10 – Egluro canllawiau yn ôl yr angen ar y datganiad o dderbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o'r adolygiad o'r polisi safonau ymddygiad busnes. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Trafod blaen raglen waith 2025/2026 a derbyn adroddiad adolygu effeithiolrwydd y Pwyllgor

14.1 Cyflwynodd Ysgrifennydd y Bwrdd ganlyniadau sesiwn adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor ar 7 Mai. Cytunodd yr aelodau fod y crynodeb a'r cynllun gweithredu yn gywir. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn ymgorffori'r camau hyn i flaen raglen waith ffurfiol y pwyllgor ac yn ei chylchredeg i'w cymeradwyo yn y cyfarfod ym mis Medi.

A25-06-11 - Ymgorffori camau gweithredu o adolygiad effeithiolrwydd yn y blaen raglen waith a'u cylchredeg i'w cymeradwyo ym mis Medi 2025. **Gweithredu:** Ysgrifennydd y Bwrdd.

Unrhyw fater brys arall

15.1 Nododd y Prif Weithredwr er cofnod mewn perthynas â'r papur adroddiad rheolaidd cynharach ar gwynion ac adborth mai hwn oedd yr adroddiad cyntaf i gynnwys adborth cadarnhaol gan unigolion yn ogystal â chwynion. Roedd hyn yn dangos yr effaith y mae'r sefydliad yn ei gael ar y rhai y mae'n eu cefnogi, yn enwedig drwy eiriolaeth cwynion. Croesawodd yr aelodau'r cynnwys.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

- **10 Medi 2025, 13:00yh**
Ystafell Fwrdd Llais, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays / Microsoft Teams
- **30 Medi 2025, amser i'w gadarnhau - Cyfarfod ychwanegol i adolygu canlyniadau archwilio a'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol.**



Eich llais chi mewn | Your voice in health
iechyd a gofal | and social care

Ystafell Fwrdd Llais, Adeiladau'r Goron, Parc Cathays / Microsoft
Teams

Daeth y cyfarfod i ben am 16:30.